Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Beaumaris
# Maeshyfryd
# Biwmares
# Ynys Môn
# LL58 8HL

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2014**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ar gyrion tref Biwmares, ac fe'i cynhelir gan awdurdod addysg Ynys Môn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r dref a phentrefi gwledig cyfagos. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r holl ystod gallu.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ddwyieithog ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed ond Cymraeg yw'r prif gyfrwng dysgu. Derbynnir plant i ddosbarth meithrin yr ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn i'r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 80 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan bedwar o athrawon amser llawn sy'n cynnwys pennaeth digyswllt a dwy athrawes ran amser.

Mae oddeutu 30% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl, sydd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Ynys Môn a Chymru. Mae 41% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol uwch na chanrannau'r sir. Ychydig iawn o'r disgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o blant o gefndir ethnig lleiafrifol sydd yn yr ysgol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ionawr 2008. Mae'r pennaeth wedi bod yn y swydd ers Ebrill 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Biwmares yn 2013-2014 yw £5,136. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £9,156 a'r lleiafswm yw £2,901. Mae Ysgol Biwmares yn 9fed allan o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod mwyafrif o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd addas mewn perthynas â'u mannau cychwyn;
- bod perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol ac mae lefelau gofal a chymorth yn uchel;
- bod darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, cartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel; a
- bod darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol.

Fodd bynnag:

- dros gyfnod, nid yw safonau cyrhaeddiad y disgyblion ym mhob agwedd yn cymharu'n dda â safonau mewn ysgolion tebyg;
- nid yw'r cynllunio yn cynnwys digon o fanylder i sicrhau dilyniant a pharhad;
- nid yw medrau rhan fwyaf y disgyblion wedi datblygu'n ddigonol iddynt fanteision llawn ar y cwricwlwm ehangach; ac
- nid yw dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o ba mor dda maent yn ei wneud a sut i wella yn ddigon cadarn.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol gan fod:

- y pennaeth yn cynnig arweiniad effeithiol a phwrpasol i'r ysgol;
- nifer o weithdrefnau priodol wedi eu rhoi ar waith i sicrhau prosesau rheoli cadarn ar gyfer lles a chodi safonau;
- parodrwydd aelodau'r staff i gydweithio er lles y disgyblion; a
- dealltwriaeth gadarn y corff llywodraethol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu.

Er hynny:

- nid yw'r gweithdrefnau wedi cael amser i ddylanwadu'n llawn ar godi safonau;
- nid yw rôl y llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol wedi datblygu'n ddigonol er mwyn dwyn yr ysgol i gyfrif drwy herio perfformiad; ac
- nid yw rôl athrawon fel arweinyddion wedi datblygu'n ddigonol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau llafar, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg ar draws yr ysgol

A2 Cynllunio'n fwy bwriadus er mwyn sicrhau gweithgareddau addas as gyfer yr holl ystod gallu

A3 Paratoi cynlluniau manwl ar gyfer sicrhau datblygiad a pharhad yn y medrau ar draws y cwricwlwm

A4 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu'n ddysgwyr annibynnol

A5 Datblygu cyfrifoldebau arweinyddol aelodau'r staff a'r llywodraethwyr fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Yn gyffredinol, maent yn cyflawni gwaith o safon briodol mewn gwersi ac mewn llyfrau, ond mae gormod o anghysondeb yn y safonau trwy'r ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu. Nid yw medrau llawer o'r disgyblion wedi datblygu'n ddigon da.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron bob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion. Mae'r mwyafrif yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith, ond mae datblygiad medrau llafaredd Cymraeg yn rhy araf yn y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion uwch eu gallu yn dechrau dangos hyder wrth sgwrsio am faterion sydd o fewn eu profiad a'u diddordeb. Serch hynny, mae llawer o'r disgyblion yn amharod i ddefnyddio'r Gymraeg o wirfodd yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn llawer mwy hyderus yn Saesneg wrth drafod eu gwaith ac maent yn dod yn gynyddol hyderus i fynegi barn, gofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, araf iawn yw cynnydd llawer o'r disgyblion yn eu medrau darllen Cymraeg. Lleiafrif sydd yn darllen testunau syml yn gywir ac yn dangos dealltwriaeth o'r prif ddigwyddiadau neu syniadau mewn storïau. Ychydig o'r disgyblion sydd yn defnyddio strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd a phennu ystyr.

Yng nghyfnod allweddol 2, dim ond yr ychydig ddisgyblion uwch eu gallu sydd yn darllen yn hyderus a chyda mynegiant ystyrlon yn y Gymraeg. Mae mwyafrif y disgyblion yn gallu dewis testunau addas o amrywiaeth o ffynonellau i wella'u gwybodaeth ar draws y cwricwlwm dan arweiniad yr athro. Mae llawer yn fwy hyderus yn Saesneg gan ddangos dealltwriaeth gynyddol o ddigwyddiadau arwyddocaol a chymeriadau mewn llyfrau.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae medrau ysgrifennu tua hanner y disgyblion yn datblygu'n briodol ond mae canran sylweddol yn dangos gorddibyniaeth ar sgaffaldiau ysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, lleiafrif y disgyblion sydd yn defnyddio'u medrau ysgrifennu Cymraeg yn effeithiol. Mae llawer yn dangos diffyg defnydd o gystrawennau amrywiol a chymhleth yn gywir. Mae medrau ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn Saesneg yn dangos defnydd amrywiol o batrymau brawddeg gyda'r disgyblion uwch eu gallu yn dechrau trefnu eu gwaith mewn paragraffau. Nid yw gallu rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg na'r Saesneg wedi datblygu'n ddigonol. Ar y cyfan, mae llawysgrifen y mwyafrif yn glir ac yn ddarllenadwy.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn wrth symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn adio a

thynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau. Mae ychydig yn gallu trafod eu gwaith graff syml gyda dealltwriaeth dda a thrafod arian hyd at 20 ceiniog. Mae'r mwyafrif yn defnyddio eu medrau mesur yn gywir mewn gweithgareddau ymarferol o gwmpas y dosbarth. Fodd bynnag, nid yw strategaethau cyfrifo yn y pen i ddatrys problemau rhif wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae mwyafrif y disgyblion yn siarad am eu gwaith drwy ddefnyddio iaith fathemategol gyfarwydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan â 10 a 100. Maent yn adio a thynnu degolion yn gyson gywir hyd at ddau le. Defnyddiant ffracsiynau gyda dealltwriaeth gadarn. Nid yw mwyafrif y disgyblion yn datblygu strategaethau ar gyfer datrys problemau ac yn cyflwyno gwybodaeth a chanlyniadau mewn modd systematig. Nid yw disgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifedd y maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg ar yr un lefel ar draws agweddau ehangach y cwricwlwm.

Mae bron yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cymwys mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol.

Wrth gymharu canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen yn 2013 ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd nifer y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig, (Deilliant 5) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion. Ni chyflawnodd yr un plentyn ddeilliant uwch, sef Deilliant 6.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn y dangosydd pynciau craidd, yn cymharu'n dda â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Fodd bynnag, mae canlyniadau yn y Gymraeg yn sylweddol is. Yn gyffredinol, dros gyfnod o bedair blynedd ar wahân i 2012, yr un yw'r patrwm. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 yn 2013 yn uwch nag ysgolion tebyg ac ysgolion Cymru ym mhob pwnc ac eithrio Cymraeg. Yn 2013, o gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ac eithrio Cymraeg ymhlith y 50% uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth ond yn yr 50% isaf mewn mathemateg. Ac eithrio 2012, ble roedd yr ysgol yn 25% isaf ym mhob pwnc, mae perfformiad cyffredinol yr ysgol dros gyfnod wedi bod yn y 50% uwch o ysgolion tebyg.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013 yn y 25% uchaf mewn Saesneg a gwyddoniaeth ac yn y 50% uchaf mewn mathemateg. Ni chyflawnodd yr un disgybl y lefelau uwch mewn Cymraeg. Dros gyfnod o bedair blynedd, ac eithrio Cymraeg, mae canlyniadau wedi amrywio o fod yn y 50% uchaf a 50% isaf.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta'n iach. Un o gryfderau'r ysgol yw ymddygiad da bron pob disgybl. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni. Mae'r

disgyblion yn cyfrannu'n dda at y gymuned, yn ymweld â busnesau lleol ac yn gwella'r amgylchfyd o'u cwmpas trwy blannu blodau a chadw'r traeth yn lân.

Mae'r cyngor ysgol yn weithgar iawn ac yn sicrhau bod llais y dysgwr yn cyfrannu at waith a bywyd yr ysgol. Maent yn cadw cofnodion manwl o'u cyfarfodydd ac yn gwneud penderfyniadau sydd yn hwyluso trefniadau dyddiol yr ysgol. Maent yn trefnu gweithgareddau codi arian i brynu offer i'r ysgol ac i gefnogi amryw elusennau.

Mae lefel presenoldeb y disgyblion wedi amrywio o fod yn y 50% uchaf mewn dwy allan o'r pedair blynedd diwethaf ond yn y 25% isaf yn 2012, mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg o ran yr hawl i ginio am ddim. Mae prydlondeb y disgyblion yn dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn mynd ati'n hyderus i gymryd cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Nid yw hyn wedi datblygu yn ddigon penodol ar draws cyfnod allweddol 2.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dod yn gynyddol hyderus mewn gosod a monitro eu targedau eu hunain ond nid ydynt bob amser yn ddigon clir ynglŷn â sut i wella eu dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
| --- | --- |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau addas y tu fewn a thu allan sy'n bodloni diddordeb ac anghenion y mwyafrif o'r disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn ymdrin yn briodol â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau cysondeb yn y profiadau dysgu ac i gynnig ystod o brofiadau diddorol. Mae'r ysgol yn dechrau rhoi sylw amlwg i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau ond nid yw'r cynllunio tymor byr yn rhoi digon o arweiniad i sicrhau cynnydd, dilyniant a pharhad. Mae ystod o ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn fuddiol, ac yn cyfeirio'n glir at ofynion llafaredd, darllen ac ysgrifennu ond nid yw'n ddigon manwl i sicrhau datblygiad ieithyddol cadarn.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o brofiadau da sy'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys ystod gyfoethog o brofiadau o fewn y dref a thu hwnt ac, o'r herwydd, mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol a hanes Cymru yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn addas ac mae'r ysgol yn sicrhau bod darpariaeth effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth y plant o'r angen i ofalu am eu hamgylchedd.

Trwy ystod o weithgareddau, hyrwyddir dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan athrawon ac oedolion eraill berthynas dda gyda'r disgyblion a gwybodaeth bynciol berthnasol. Ar draws yr ysgol, mae cydweithio llwyddiannus rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn rhoi cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol.

Pan mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn rhannu amcanion y wers yn glir ac yn defnyddio adnoddau buddiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r cyflwyniadau'n fywiog gyda chyflymder da a holi effeithiol. Lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r gweithgareddau bob amser wedi'u gwahaniaethu'n addas i ymateb i'r ystod oed a gallu. O ganlyniad, nid oes digon o her i sicrhau bod disgyblion uwch eu gallu yn cyflawni cystal ag y dylent. Ar adegau, mae tueddiad i orarwain y disgyblion yn cyfyngu ar y cyfleoedd iddynt gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Mae'r athrawon ar draws yr ysgol yn rheoli ymddygiad yn dda.

Mewn rhai gwersi, mae athrawon yn modelu iaith yn dda, ac yn annog disgyblion i ddatblygu eu Cymraeg mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gwahanol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Ar y cyfan, mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar lafar a thrwy farcio. Nid yw'r marcio bob amser yn dangos i'r disgyblion sut i wella eu gwaith. Megis dechrau mae cyfleoedd i ddisgyblion hunanasesu ac i asesu gwaith eu cyfoedion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion wedi eu hadolygu'n ddiweddar, ond nid oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i farnu pa mor effeithiol yw'r broses ar gyfer osod targedau heriol i'r disgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob plentyn unigol ac yn bodloni gofynion statudol yn llawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol yn dda. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn atgyfnerthu'r gwerthoedd positif hyn yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae strategaethau clir ar gyfer hyrwyddo ymddygiad ac maent wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar bwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb ac mae strategaethau clir i hybu hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn cwrdd â'r gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o weithdrefnau sydd yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol y plant yn gynnar. Maent yn rhoi ymyriadau a chymorth pwrpasol ac effeithiol ar waith ar eu cyfer. Caiff y cynlluniau addysgol unigol eu llunio a'u hadolygu'n effeithiol gyda chydweithrediad parod y rhieni.

Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol cymdeithasol a lles i gefnogi'r disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chyfeillgar lle caiff disgyblion eu trin yn gyfartal yn holl weithgareddau'r ysgol. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn seiliedig ar werthoedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb, mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ac amrywiaeth cymdeithasol yn effeithiol.

Ar y cyfan, mae cyflenwad priodol o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Er bod buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud yn ddiweddar i wella adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), nid ydynt yn ddigonol i ymateb i ofynion grwpiau mawr o ddisgyblion ar y tro.

Mae'r ystafelloedd dosbarth a muriau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a deniadol gydag amrywiaeth o arddangosfeydd i ddathlu gwaith y disgyblion. Mae'r neuadd bwrpasol yn cael ei defnyddio'n effeithiol ar gyfer gwasanaethau a gweithgareddau addysg gorfforol. Er bod gwelliant sylweddol wedi ei wneud i'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, nid yw wedi ei threfnu i fod yn estyniad naturiol o'r dosbarth. Nid yw'r safle cyfan yn hygyrch i bobl ac anableddau corfforol.

Fe gedwir yr adeilad a'r tir o amgylch yr ysgol mewn cyflwr da.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad effeithiol a phwrpasol i'r ysgol. Mae ei disgwyliadau yn uchel ac mae wedi creu ethos cynhwysol sy'n canolbwyntio ar wella safonau a lles y disgyblion.

Yn dilyn cyfnod ansefydlog cyn ei phenodi, mae arweinyddiaeth y pennaeth yn dechrau effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad strategol yr ysgol. Mae nifer o weithdrefnau priodol wedi eu rhoi ar waith yn ddiweddar i osod seiliau cadarn ar gyfer lles y disgyblion a chodi safonau. Mae'r gweithdrefnau eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y disgyblion ond nid ydynt wedi ymsefydlu'n ddigon cadarn i effeithio'n ddigonol ar safonau cyrhaeddiad.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Hyd

yma nid yw eu rôl fel ffrindiau beirniadol wedi datblygu'n ddigonol er mwyn iddynt fedru dwyn yr ysgol i gyfrif drwy herio perfformiad.

Mae aelodau staff yr ysgol yn cydweithio'n dda ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn cefnogi gwaith y pennaeth er nad ydynt yn uniongyrchol ddylanwadu ar gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar drafod perfformiad a chyflawniad y disgyblion. Serch hynny, nid yw rôl yr athrawon fel arweinyddion wedi datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn talu sylw perthnasol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol gan gynnwys dechrau cynllunio er mwyn codi safonau llythrennedd ar draws yr ysgol. Mae'r trefniadau hyn bellach yn weithredol yn yr ysgol ac yn cynnig arweiniad clir i aelodau'r staff.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu'r rhan fwyaf o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae gan yr athrawon a'r llywodraethwyr wybodaeth dda am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r broses hunanarfarnu yn rhoi digon o ystyriaeth i safbwyntiau'r disgyblion, holl aelodau'r staff na'r rhieni.

Y pennaeth sydd yn bennaf gyfrifol am fonitro gwaith yr ysgol. Gwneir defnydd da o ddata a chanfyddiadau monitro'r addysgu a dysgu er mwyn blaenoriaethu ar gyfer sicrhau cynnydd. Yn ddiweddar, mae'r athrawon yn craffu ar waith disgyblion yn effeithiol ac mae eu rôl yn monitro safonau yn datblygu'n foddhaol.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn ddogfen weithredol sydd yn nodi blaenoriaethau priodol. Mae cysylltiad amlwg rhwng canfyddiadau'r hunanarfarnu a'r cynllun gwella. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau mesuradwy ac yn clustnodi symiau penodol o gyllid i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Mae'r pennaeth yn monitro a gwerthuso cynnydd y blaenoriaethau ac yn adrodd arnynt yn effeithiol yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau sy'n hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn effeithiol.

Mae wedi datblygu cysylltiadau gwerthfawr gyda rhieni a gofalwyr. Mae Cymdeithas Ffrindiau'r ysgol yn codi arian sylweddol a chyson i'r ysgol a gwneir defnydd da o'r cyllid ychwanegol er budd y disgyblion. Enghraifft ddiweddar o hyn yw'r buddsoddiad a wnaethpwyd i wella darpariaeth TGCh a phrynu llyfrau darllen fydd yn apelio'n well at fechgyn.

Mae cysylltiadau adeiladol gyda'r gymuned leol ac mae gwirfoddolwyr yn dod i wrando ar ddisgyblion yn darllen. Mae hyn yn meithrin parch at oedolion ac yn cyfrannu tuag at wella medrau llythrennedd. Gwneir defnydd da o arbenigeddau pobl leol er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o'u hardal leol. Enghreifftiau da o hyn yw'r rhan amlwg a gymer y disgyblion yng ngweithgareddau Cadw Cymru'n Daclus a'r

ffair Fictoria flynyddol sydd yn y dref. Mae cysylltiadau gydag elusennau ac asiantaethau amrywiol yn hybu lles y disgyblion.

Mae partneriaeth effeithiol gyda'r brifysgol leol ble mae'r adran wyddonol yn cynnig profiadau diddorol i'r disgyblion. Mae trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd leol ac mae'r rhain yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn meithrin partneriaeth fuddiol gyda gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer datblygu staff ac ymateb i anghenion disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a staff cymorth profiadol i ymdrin â phob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol. Fe wneir defnydd effeithiol o'r staff cymorth i gefnogi'r grwpiau ymyrraeth a chânt effaith gadarnhaol ar safonau a lles unigolion penodol a grwpiau o ddisgyblion.

Gwna'r athrawon ddefnydd priodol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sydd bellach yn cynnig cyfleoedd cyson ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Er bod peth cydweithio ag ysgolion arall yn lleol, nid yw ymglymiad mewn rhwydweithiau proffesiynol wedi ei sefydlu.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ar gyfer codi safonau a lles y disgyblion. Caiff y gwariant ei fonitro'n effeithiol gan y pennaeth. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau monitro ar ran y llywodraethwyr yn ddigon miniog.

O ystyried cyflawniadau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Wrth gymharu canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen yn 2013 ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd nifer y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig, (Deilliant 5) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion. Cyflawnodd bob plentyn y deilliant disgwyliedig mewn medrau personol a chymdeithasol a oedd ychydig yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru.

Ar wahân i fedrau personol a chymdeithasol, ni chyflawnodd yr un disgybl y deilliant uwch, sef 'Deilliant 6' mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. Er bod y teuluoedd o ysgolion tebyg wedi newid yn 2013, yr un oedd y canlyniad dros y ddwy flynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn y dangosydd pynciau craidd, yn ogystal ag mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n dda â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Fodd bynnag, mae canlyniadau Cymraeg yn sylweddol is. Yn gyffredinol, dros gyfnod o bedair blynedd, ar wahân i 2012, yr un yw'r patrwm. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 yn uwch nag ysgolion tebyg ac ysgolion Cymru ym mhob pwnc ar wahân i Gymraeg. Ni chyflawnodd yr un disgybl lefel 5 mewn Cymraeg.

Yn 2013, o gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ymhlith y 50% uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth ond yn yr 50% is mewn mathemateg a'r 25% isaf mewn Cymraeg.

Ac eithrio 2012, ble roedd yr ysgol yn y 25% isaf ym mhob pwnc, mae perfformiad yr ysgol dros gyfnod, ac eithrio Saesneg yn 2013, wedi bod yn y 50% uwch o ysgolion tebyg.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013 yn y 25% uchaf mewn Saesneg a gwyddoniaeth ac yn y 50% uwch mewn mathemateg. Ni chyflawnodd yr un disgybl y lefelau uwch mewn Cymraeg. Dros gyfnod o bedair blynedd, ac eithrio Cymraeg, mae canlyniadau ym mhob pwnc wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 50% is.

Yn gyffredinol, dros gyfnod o bedair blynedd, mae merched yn cyflawni'n well na'r bechgyn ym mhob pwnc. Ar y cyfan, nid yw disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'r gweddill.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 38 | 37<br>97%<br>98% | 1<br>3%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 40 | 38<br>95%<br>92% | 2<br>5%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 39 | 39<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 39 | 38<br>97%<br>98% | 1<br>3%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 40 | 40<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 39 | 39<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 40 | 40<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 40 | 39<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 39 | 39<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 40 | 40<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 37 | 25<br>68%<br>78% | 12<br>32%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 34 | 33<br>97%<br>84% | 1<br>3%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 10 | 4<br>40% | 5<br>50% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 10 | 3<br>30% | 6<br>60% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 10 | 1<br>10% | 8<br>80% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 4<br>40% | 5<br>50% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 9 | 4<br>44% | 3<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 2<br>20% | 6<br>60% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 10 | 7<br>70% | 2<br>20% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 10 | 2<br>20% | 8<br>80% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 10 | 2<br>20% | 8<br>80% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 9 | 2<br>22% | 5<br>56% | 1<br>11% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 4<br>40% | 6<br>60% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 10 | 7<br>70% | 2<br>20% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Margaret Gwyn Watkins | Arolygydd Lleyg |
| Elin Mai Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwyneth Hughes | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.